Mae Cymru X wedi gwrthwynebu cyflwyno ffïoedd atodol yng Nghymru o'r cychwyn, a ffïoedd dysgu yn gyffredinol. Roedden ni'n rhan o'r ymgyrch lwyddiannus wnaeth sicrhau nad oedd ffïoedd atodol yng Nghymru tan nawr. Rydyn ni'n cefnogi polisi'r Blaid ar y mater hwn. Rydyn ni hefyd yn teimlo nad oedd yr ymgynghoriad diweddar yn ddigonol o ran casglu barn myfyrwyr a phobl eraill. Byddwn, felly, yn paratoi ateb stoc i bobl sy'n cefnogi ein safbwynt.Mae Gweinidog Addysg Llywodraeth Cymru'n Un yn cynnig bod angen ailgyflwyno ffïoedd ar gyfer myfyrwyr o Gymru, er mwyn cyfeirio'r arian hwnnw er mwyn helpu myfyrwyr tlawd. Mae'n ymddangos mai'r brif ddadl yw bod angen gwneud rhywbeth er mwyn cau'r bwlch arian rhwng prifysgolion yng Nghymru a sefydliadau Lloegr. Ar yr un pryd, mae nifer o argymhellion yn yr ymgynghoriad, fel cymorth dyled neu hyd yn oed ddileu dyled graddedigion, benthyciadau i dalu ffïoedd dysgu, cynnig cymhelliant i bobl wneud Tystysgrif Addysg Ôl-raddedig, a mwy o arian ar gyfer Grant Dysgu'r Cynulliad.Rydym yn teimlo mai canlyniad y polisi hwn fydd rhwystro myfyrwyr o gefndir tlawd rhag gallu fforddio mynd i'r brifysgol, a fydd yn golygu mai dim ond myfyrwyr o gefndir cyfoethog fydd yn gallu cael addysg uwch. Nid yn unig mae hyn yn annheg: mae hefyd yn mynd yn erbyn amcanion Cytundeb Cymru'n Un.Mae rhai o'r cynigion yn ddeniadol, ond mae'n aneglur a fydd hyn yn lleihau'r bwlch arian rhwng Cymru a Lloegr oherwydd faint o arian y bydd yn ei gostio i'w weithredu.Hoffem nodi felly ein bod yn dal i wrthwynebu cyflwyno ffïoedd atodol yng Nghymru, a dylai'r Llywodraeth ddatrys y bwlch arian rhwng Cymru a Lloegr mewn ffordd na fydd yn gwthio myfyrwyr tuag at fwy o ddyled.